OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 718 (Cy.25)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *8 Chwefror 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Chwefror 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 76(4) a 140(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 9 Chwefror 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Diddymu

**2.** Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny, diddymir drwy hyn Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) 1992(**3**), Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) 1993(**4**), Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio)1995(**5**), a Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) 1998(**6**).

### Cyrff Penodedig

**3.** Mae'r cyrff canlynol yn rhai penodedig at ddibenion adran 76(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sef:–

(a) Bwrdd Arholi'r Gwasanaethau Tân;

(b) Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus Oedolion;

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd adran 76 gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.19). Atodlen 10, paragraff 8.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/89
(**4**) O.S. 1993/139
(**5**) O.S. 1995/3184
(**6**) O.S. 1998/2995

(c) Biwro Cydwladol Llywodraeth Leol;

(d) Corff Cydgysylltu yr Awdurdodau Lleol ar Fwyd a Safonau Masnach;

(e) Public Private Partnerships Programme Limited;

(f) Syniad;

(g) yr Asiantaeth dros Welliant a Datblygiad Llywodraeth Leol;

(h) Corff Cyflogwyr Llywodraeth Leol; ac

(i) Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*Dafydd Elis Thomas*
8 Chwefror 2000 — Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**7**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adrannau 78 a 79 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu bod grant cynnal refeniw yn daladwy i unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac sy'n gorff a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau. Breiniwyd y pwerau hyn bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cyrff i'r diben hwn. Diddymir a disodlir y Rheoliadau blaenorol gan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny. Daw Syniad (yr Asiantaeth dros Welliant, Datblygiad a Chyflogwyr yng Nghymru) yn gorff penodedig i ddibenion adran 78.